

# Adeiladu - Crefftau, Plymwaith a Gosod Trydan



**Mae sector adeiladu'r DU yn ddiwydiant gwerth biliynau o bunnoedd ac mae prentisiaid adeiladu yn rhan enfawr o'r gweithlu ar draws amrywiol ddisgyblaethau adeiladu.**

Mae'r sector hwn yn gyfle gwych i ddysgwyr y mae'n well ganddynt fod yn ymarferol yn eu gwaith a gall arwain at swyddi rheoli a thechnegol mewn swyddfa.

Bydd Prentisiaid Adeiladu yn treulio amser yn ein cyfleusterau o'r radd flaenaf a adnewyddwyd yn ddiweddar yn ein safleoedd ar Lannau Dyfrdwy neu Ffordd y Bers i gael eu rhyddhau am y dydd o'r gwaith neu i gael eu hasesu yn ogystal â chael eu hasesu ar y safle gan ein timau asesu sydd â phrofiad yn y diwydiant.

Efallai y bydd myfyrwyr sydd am astudio tuag at gymhwyster crefftau adeiladu, plymio neu osod trydan yn gallu cwtogi hyd y rhaglen os ydynt wedi cwblhau blwyddyn sylfaen yn llawn amser yn y coleg cyn cael cyflogaeth fel prentis. Mae angen i gyflogwyr crefft ac adeiladu gynnwys ystod eang o waith yn eu maes i fodloni gofynion tystiolaeth y cymhwyster.

Bydd gofyn i brentisiaid sy'n astudio cymhwyster adeiladu wneud cymysgedd o dasgau corfforol ar y safle yn y gweithle a bydd angen iddynt fod yn fanwl gywir yn eu gwaith.

## Cymwysterau rydym yn eu cynnig

Cwrs	Gofynion mynediad	Hyd arferol	Dull astudio ac asesu	Lleoliad
Lefel 3 mewn Peirianeg Gwasanaethau Adeiladu - Gosod electrodechnegol	Cyflogaeth mewn diwydiant perthnasol, TGAU A-C (9-4) mewn Mathemateg, Saesneg a Phwnc Technegol*	48 mis	Asesiad yn y gwaith a rhyddhau o'r gwaith am ddiwrnod	Glannau Dyfrdwy a Ffordd y Bers
Lefel 3 mewn Peirianeg Gwasanaethau Adeiladu - Crefftwr Gosodiadau Gwresogi ac Awyru	Cyflogaeth mewn diwydiant perthnasol, TGAU A-C (9-4) mewn Mathemateg, Saesneg a Phwnc Technegol*	48 mis	Asesiad yn y gwaith a rhyddhau o'r gwaith am ddiwrnod	Glannau Dyfrdwy
Lefel 3 mewn Peirianeg Gwasanaethau - Plymwaith a Gwresogi	Cyflogaeth mewn diwydiant perthnasol, TGAU A-C (9-4) mewn Mathemateg, Saesneg a Phwnc Technegol*	48 mis	Asesiad yn y gwaith a rhyddhau o'r gwaith am ddiwrnod	Glannau Dyfrdwy a Ffordd y Bers

\*Er enghraifft - gwyddoniaeth neu dechnoleg ddigidol

## Cymwysterau rydym yn eu cynnig

Cwrs	Gofynion mynediad	Hyd arferol	Dull astudio ac asesu	Lleoliad
Lefel 3 mewn Adeiladu - Saerŷiaeth Bensaerŷiol	Cyflogaeth mewn diwydiant perthnasol, TGAU A-C (9-3) mewn Mathemateg, Saesneg a Phwnc Technegol*	36 mis	Asesiad yn y gwaith a rhyddhau o'r gwaith am ddiwrnod	Glannau Dyfrdwy a Ffordd y Bers
Lefel 3 mewn Adeiladu - Gwaith Saer ar Safle	Cyflogaeth mewn diwydiant perthnasol, TGAU A-C (9-3) mewn Mathemateg, Saesneg a Phwnc Technegol*	36 mis	Asesiad yn y gwaith a rhyddhau o'r gwaith am ddiwrnod	Glannau Dyfrdwy a Ffordd y Bers
Lefel 3 mewn Adeiladu - Gosod Brics	Cyflogaeth mewn diwydiant perthnasol, TGAU A-C (9-3) mewn Mathemateg, Saesneg a Phwnc Technegol*	42 mis	Asesiad yn y gwaith a rhyddhau o'r gwaith am ddiwrnod	Glannau Dyfrdwy a Ffordd y Bers
Lefel 3 mewn Adeiladu - Plastro Soled	Cyflogaeth mewn diwydiant perthnasol, TGAU A-C (9-3) mewn Mathemateg, Saesneg a Phwnc Technegol*	42 mis	Asesiad yn y gwaith a rhyddhau o'r gwaith am ddiwrnod	Ffordd y Bers
Lefel 3 mewn Adeiladu - Paentio ac Addurno	Cyflogaeth mewn diwydiant perthnasol, TGAU A-C (9-3) mewn Mathemateg, Saesneg a Phwnc Technegol*	36 mis	Asesiad yn y gwaith a rhyddhau o'r gwaith am ddiwrnod	Ffordd y Bers

\*Er enghraifft - gwyddoniaeth neu dechnoleg ddigidol

## Awgrym gorau

Ceisiwch gysylltu â chwmnïau lleol yn uniongyrchol os ydych yn chwilio am brentisiaeth adeiladu, bydd y rhan fwyaf o gyflogwyr yn y diwydiant hwn yn dechrau recriwtio ar ddiwedd y gwanwyn a thros yr haf. Gall myfyrwyr coleg llawn amser gadw llygad am ddigwyddiadau recriwtio sydd wedi'u trefnu gan y coleg i helpu i ddod o hyd i Brentisiaeth.